



Datganiad i'r Wasg: 11 Awst 2020

Lansio Cynllun Gweithredu i ddiogelu'r Maelgi sydd mewn Perygl Difrifol, a geir o hyd oddi ar arfordir Cymru

Mae [cynllun gweithredu](#) pum mlynedd wedi cael ei gyhoeddi heddiw i helpu i ddiogelu Maelgwn. Dyma un o rywogaethau siarcod prinnaf y byd, ond gellir dod o hyd i iddi o hyd o gwmpas arfordir Cymru. [www.angels sharknetwork.com/cymru/#cynllungweithredu]

Mae Cynllun Gweithredu Maelgi Cymru wedi cael ei ddatblygu gyda sefydliadau o bob rhan o Gymru mewn ymateb i'r ddealltwriaeth gyfyngedig o ecoleg a statws Maelgwn yng Nghymru ac mae'n nodi camau gweithredu â blaenoriaeth i ddiogelu'r rhywogaeth warchoddedig hon.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn benllanw dwy flynedd o waith casglu tystiolaeth helaeth a wnaed fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru (PM:C), menter gydweithredol a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r elusen gadwraeth ryngwladol ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain).

Ers iddo gael ei lansio yn 2018, mae PM:C wedi llwyddo i ddwyn ynghyd bysgotwyr, cyrff y Llywodraeth, cyrff anllywodraethol a phobl leol o bob cwr o Gymru, i greu darlun cliriach o ble mae Maelgwn i'w gweld yn nyfroedd Cymru ac i ddeall eu rôl yn nhreftadaeth forol Cymru.

Mae data a gasglwyd o atgofion cymunedol, ymchwil hanesyddol, gwybodaeth pysgotwyr ac arolygon gwyddoniaeth dinasyddion wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Gweithredu, a fydd yn cael ei roi ar waith dros y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd Joanna Barker, Uwch Reolwr Prosiectau Morol a Dŵr Croyw ZSL: "Mae lansio'r Cynllun Gweithredu hwn yn gam hollbwysig i ddiogelu dyfodol Maelgwn yng Nghymru. Mae gan y rhywogaeth hon bwysigrwydd gwyddonol a diwylliannol sylweddol i Gymru ac fe'i rhestrir fel y pumed siarc mwyaf Unigryw yn Esblygol ac sydd mewn Perygl yn Fyd-eang (EDGE), sy'n golygu ei fod yn cynrychioli cangen unigryw ar goeden bywyd".

Ers 1980, mae mwy na 1,600 o Faelgwn wedi cael eu cofnodi yn nyfroedd arfordirol Parth Cymru, gan gynnwys 79 o gofnodion o Faelgwn ifanc o ardaloedd o gwmpas gogledd Bae Ceredigion a Môr Hafren.

Dywedodd Ben Wray, Ecolegydd Morol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru: "Mae'n hynod o gyffrous bod gennym boblogaeth o Faelgwn yma yng Nghymru o hyd, ac mae'r cydweithio dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gwella'n dealltwriaeth yn sylweddol o ran statws ac ecoleg y rhywogaeth hynod bwysig hon.

"Yr hyn sy'n hanfodol nawr yw ein bod yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn ac yn gwella ein dealltwriaeth ymhellach i wneud yn siwr bod y siarc prin hwn yn cael ei ddiogelu – nawr ac yn y dyfodol."

Ychwanegodd Jake Davies, Cydlynnydd PM:C: "Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r holl bartneriaid, gan gynnwys y gymuned bysgota ac aelodau'r cyhoedd, sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn hyd yma.

"Diolch i gyllid a chefnogaeth gan sawl sefydliad, gan gynnwys On The EDGE Conservation, gall y camau blaenoriaeth o'r cynllun gweithredu ddechrau fis nesaf. Bydd hyn yn cynnwys astudiaeth DNA amgylcheddol (eDNA) systematig yng ngogledd Bae Ceredigion i ddeall presenoldeb Maelgwn trwy gydol y flwyddyn, parhau â'r gwaith gyda'r gymuned bysgota ac ysbrydoli cymunedau arfordirol yng Nghymru gyda'r e-lyfr Angylion Cymru."

-diwedd-

Nodiadau i Olygyddion:

Swyddfa Gyfathrebu CNC: 029 2046 4227/ cyfathrebu@cyfoethnaturiol.cymru (24 awr)

ZSL: will.richard@zsl.org

Yn y llun: Maelgi ar wely'r môr. Hawlfraint – Michael Sealey

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

ZSL

Mae ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain) yn elusen gadwraeth ryngwladol sy'n gweithio i greu byd lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu. O ymchwilio'r bygythiadau iechyd sy'n wynebu anifeiliaid i helpu pobl a bywyd gwyllt i fyw gyda'i gilydd, mae ZSL wedi ymrwmo i ddod â bywyd gwyllt yn ôl o drothwy difodiant. Mae ein gwaith yn cael ei wireddu drwy ein gwyddoniaeth arloesol, ein gwaith cadwraeth maes o amgylch y byd ac ymgysylltu â miliynau o bobl drwy ein dau sw, ZSL London Zoo a ZSL Whipsnade Zoo. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.zsl.org

Mae diffyg cyllid - o ganlyniad i'r pandemig presennol - wedi rhoi arbenigedd arloesol ZSL mewn gwyddoniaeth a chadwraeth mewn perygl difrifol. Mae angen cymorth ar frys ar ZSL er mwyn i'w gwyddonwyr allu parhau i ymchwilio i glefydau bywyd gwyllt fel Covid-19, ac i'w chadwraethwyr allu parhau i weithio yn y maes i ddiogelu'r bywyd gwyllt a'r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt. I ddarganfod mwy, ewch i www.zsl.org/donate.

Cynllun Gweithredu Prosiect Maelgi: Cymru

Prosiect Maelgi: Cymru, Cymdeithas Swoleg Llundain, Cymdeithas Fiolegol Forol, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe, The Advocacy Hub, Grŵp Arbenigol yr IUCN ar gyfer Siarcod, CEFAS, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coleg Imperial Llundain, Casgliad y Werin Cymru, Ymddiriedolaeth y Siarcod, Prifysgol Bangor, Prosiect Maelgi: Yr Ynysoedd Dedwydd, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Gwnaed y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu yn bosibl drwy gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.